ACHREDU AMGUEDDFEYDD

MUSEUM ACCREDITATION

Cynllun Achredu ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau yn y DU

# Achrediad:

## Cymhwysedd a Sut i Wneud Cais

Tachwedd 2024

**Croeso i'r Cynllun Achredu** .................... **2**
Y broses ymgeisio – trosolwg .................... 2
1. Holiadur Cymhwysedd .................... 2
2. Cais am achrediad .................... 2
Sut i ddefnyddio'r ddogfen arweiniad hon .................... 3
**Cymhwysedd** .................... **3**
Pwy all wneud cais? .................... 3
Pwy fydd yn methu gwneud cais? .................... 4
Cyfansoddiadau cymwys ac anghymwys .................... 5
Rhesymau cyffredin pam mae dogfennau llywodraethu'n anghymwys .................... 6
Cwblhau eich Holiadur Cymhwysedd .................... 7
Cwestiwn 1. A yw'r amgueddfa wedi ei seilio yn y DU, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel? .................... 7
Cwestiwn 2. Ydy'r amgueddfa'n cyfateb â'r diffiniad o amgueddfa y cytunwyd arno? .................... 8
Cwestiwn 3. A yw'r amgueddfa yn safle/lle/adeilad ffisegol sy'n agored i'r cyhoedd yn rheolaidd? .................... 8
Cwestiwn 4. Sut all y cyhoedd brofi ac ymgysylltu â chasgliadau'r amgueddfa? .. 8
Cwestiwn 5. Mae'n rhaid i'r amgueddfa gael cyfansoddiad priodol .................... 8
Cwestiwn 6. Ydych chi'n ymroddedig i wneud cais am Achrediad o fewn tair blynedd? .................... 9
Cyflwyno eich Holiadur Cymhwysedd i gael ei adolygu .................... 10
Y broses o adolygu cymhwysedd .................... 10
**Eich cais am Achrediad** .................... **12**
Cychwyn arni .................... 12
Pa wybodaeth sydd angen i mi ei chyflwyno? .................... 12
Ceisiadau gan safle unigol a reolir gan wasanaeth amgueddfa .................... 14
Awdurdodau amgueddfeydd cenedlaethol .................... 14
Sut ydw i'n cyflwyno'r cais am Achrediad? .................... 14
Awgrymadiau allweddol am ddefnyddio Grantium .................... 14
**Asesiad a phenderfyniad** .................... **15**
Asesiad .................... 15
Argymhelliad y dyfarniad .................... 16
Y panel penderfynu .................... 16
Llythyr am y dyfarniad .................... 17
Am faint mae'r dyfarniad yn para? .................... 17
**Cymorth a chyngor am achrediad** .................... **17**
Cymorth gyda defnyddio Grantium .................... 18

# Croeso i'r Cynllun Achredu

Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y Safon Achredu Amgueddfeydd, sef Safon y DU i amgueddfeydd ac orielau.

Mae'r Cynllun yn nodi'r safonau o arfer da ar gyfer y sector y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae'n cael ei reoli fel partneriaeth rhwng Arts Council England, Llywodraeth Cymru, Museums Galleries Scotland a Chyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon. Mae pob sefydliad yn awdurdod datblygu cenedlaethol i bob amgueddfa.

Gallwch lawrlwytho'r Safon Achredu ac amrywiaeth o adnoddau a chanllawiau yn y Llyfrgell Arweiniad i Achrediad.

## Y broses ymgeisio – trosolwg

Mae proses ymgeisio dau gam yn y Cynllun Achredu:

### 1. Holiadur Cymhwysedd

Yn gyntaf rydym yn edrych i weld a yw eich amgueddfa'n cyflawni'r meini prawf cymhwysedd allweddol ac yn gymwys i wneud cais am Achrediad Amgueddfa.

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno Holiadur Cymhwysedd, copi o'u dogfen lywodraethu a chadarnhad o'u hymrwymiad i wneud cais am Achrediad o fewn cyfnod o dair blynedd.

Byddwn fel arfer yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad yr adolygiad cymhwysedd o fewn chwe wythnos.

Os byddwn yn cadarnhau eich bod yn gymwys i wneud cais, bydd gennych hyd at dair blynedd i baratoi a chyflwyno cais am Achrediad. Os nad yw eich sefydliad yn gymwys i wneud cais, byddwn yn darparu adborth am y rheswm dros hynny ac, os yw'n berthnasol, pa feini prawf cymhwysedd y mae angen i chi fynd i'r afael â nhw cyn cyflwyno holiadur cymhwysedd newydd.

### 2. Cais am achrediad

Mae angen i amgueddfeydd sy'n gymwys i wneud cais baratoi a chyflwyno cais am Achrediad sy'n dangos tystiolaeth eu bod yn ateb pob un o ofynion y Safon.

Mewn rhai achosion, y cwbl y byddwn ei angen yw cadarnhad bod gennych y polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle. Mewn achosion eraill, byddwn yn gofyn i chi lanlwytho dogfennau penodol.

Os nad ydych yn cyflwyno cais o fewn tair blynedd, yna bydd eich cymhwysedd i wneud cais yn dod i ben a bydd angen i chi anfon Holiadur Cymhwysedd newydd i mewn os byddwch eisiau parhau i gymryd rhan yn y cynllun Achredu.

## Sut i ddefnyddio'r ddogfen arweiniad hon

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut i wneud cais i'r Cynllun Achredu os ydych yn ymgeisio am y tro cyntaf.

Mae'r adran **Cymhwysedd** yn trafod y meini prawf cymhwysedd ac yn cyflwyno'r Holiadur Cymhwysedd.

Mae'r adran **Eich Cais am Achrediad** yn rhoi arweiniad i amgueddfeydd cymwys sy'n gwneud eu cais cyntaf.

Mae'r adran **Asesiad a Phenderfyniad** yn esbonio beth sy'n digwydd wedi i chi gyflwyno eich cais, a sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau.

Mae'r adran **Cymorth a Chyngor** yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw os oes gennych chi unrhyw gwestiynau wrth baratoi eich Holiadur Cymhwysedd neu gais am Achrediad.

# Cymhwysedd

Yn yr adran hon, byddwn yn trafod y meini prawf cymhwysedd a sut i gwblhau eich Holiadur Cymhwysedd.

## Pwy all wneud cais?

Mae Achrediad Amgueddfeydd yn Safon cynhwysol. Mae'n cael ei ddefnyddio gan bob math o amgueddfeydd cyhoeddus – o sefydliadau bach a redir gan wirfoddolwyr i sefydliadau cenedlaethol. Mae cymhwysedd yn cyfeirio at y rheolau ynglŷn â phwy all wneud cais i'r Cynllun Achredu.

**I fod yn gymwys i wneud cais i'r Cynllun Achredu, mae'n rhaid i'ch sefydliad ateb y meini prawf a ganlyn:**

- Bod wedi eu seilio yn y DU, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel

- Cyfateb â diffiniad y Gymdeithas Amgueddfeydd (1998) o'r hyn yw amgueddfa: "Mae amgueddfeydd yn galluogi i bobl archwilio casgliadau i gael ysbrydoliaeth, addysg a mwynhad. Maen nhw'n sefydliadau sy'n casglu, diogelu a gwneud yn hygyrch yr arteffactau a sbesimenau hynny y maen nhw'n eu dal mewn ymddiriedolaeth i gymdeithas"
- Bod yn safle/lle/adeilad ffisegol sy'n agored i'r cyhoedd yn rheolaidd
- Galluogi i'r cyhoedd weld ac ymgysylltu â chasgliadau eich amgueddfa
- Bod â chyfansoddiad priodol sy'n cefnogi diben tymor hir amgueddfa gyhoeddus. Rhaid i'r endid cyfansoddiadol olygu yn gyfreithiol bod yr amgueddfa:
  - Yn bodoli er budd y cyhoedd
  - Yn gallu dangos bod ei chasgliadau a'i hasedau wedi eu diogelu'n briodol
  - Yn meddu ar y pwerau i redeg amgueddfa a dal casgliadau ac asedau, mae'n rhaid i'r pwerau hyn fod yn eglur ac ni ddylent gynnwys y gallu i ddosbarthu asedau neu elw er buddiant preifat
  - Yn atebol i reoleiddio statudol neu broses farnwrol mewn perthynas â'r ffordd y mae'n gweithredu
  - Rhaid iddi fod yn endid parhaol sydd â diben tymor hir
- Bod yn ymroddedig i wneud cais llawn am Achrediad o fewn tair blynedd

## Pwy fydd yn methu gwneud cais?

Ni fydd y mathau canlynol o sefydliadau'n cael eu hystyried yn gymwys fel rheol:

- Amgueddfeydd a thai hanesyddol sydd mewn dwylo preifat
- Orielau masnachol
- Canolfannau gwyddoniaeth
- Safleoedd naturiol ac archaeolegol, adeiladau a safleoedd hanesyddol a diwydiannol, cofebion a chanolfannau treftadaeth heb gasgliadau hirdymor cysylltiedig
- Sefydliadau sy'n arddangos sbesimenau byw, er enghraifft, sŵau a gerddi botaneg
- Gwasanaethau benthyca addysgol
- Lleoliadau ar gyfer arddangosfeydd dros dro nad ydynt yn arddangos casgliadau hirdymor
- Canolfannau cofnodion
- Llyfrgelloedd ac archifdai yn cynnwys archifau sain, ffilm a ffotograffau
- Rhith-amgueddfeydd

## Cyfansoddiadau cymwys ac anghymwys

Mae dogfen lywodraethu'n ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu nodau'r sefydliad a sut mae'n cael ei weinyddu. Gallai fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, rheolau, memorandwm ac erthyglau cymdeithasiad, trawsgludiad, ewyllys, Siarter Frenhinol, cynllun y Comisiwn Elusennol neu ddogfen ffurfiol arall.

I fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun, mae angen i'ch dogfen lywodraethu gynnwys pwerau i redeg amgueddfa ac i ddal casgliadau, a thystiolaeth bod y casgliadau wedi eu diogelu'n briodol.

**I weld a yw eich cyfansoddiad yn gymwys, defnyddiwch y siart llif yn yr Arweiniad Cyfeirio Cyflym i Ofyniadau Cyfansoddiadol Amgueddfeydd.**

Gallai hyn helpu i ganfod a oes angen i chi wneud unrhyw addasiadau i'ch cyfansoddiad cyn gwneud cais am gadarnhad o gymhwysedd. Ni allwn gynnig cyngor cyfreithiol, ond efallai yr hoffech chi ymgynghori â chynghorwr cyfreithiol cymwys i roi ystyriaeth i'ch amgylchiadau penodol chi.

Mae'r sefydliadau dilynol yn darparu amrywiaeth o adnoddau Achrediad cymeradwy yn cynnwys gwybodaeth am lywodraethiant a chyfansoddiadau:

**Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol** https://www.aim-museums.co.uk/
**Yr Ymddiriedolaeth Casgliadau** https://collectionstrust.org.uk/accreditation/

## Nid yw rhai mathau o endidau cyfansoddiadol yn cefnogi diben tymor hir amgueddfa gyhoeddus:

### Mathau cyfansoddiadol sy'n debygol o fod yn gymwys

- Cwmni Elusennol Cyfyngedig trwy Warant (CCLG)
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIO) a Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban (SCIO)
- Cwmnïau Cydfuddiannol Gwasanaethau Cyhoeddus (os ydynt yn CIO neu CCLG)
- Amgueddfeydd Awdurdod Lleol (gallant fod yn Brif Awdurdod neu Gyngor Tref/ Cymuned (Cymru) neu Blwyf lle mae'r awdurdod wedi ei ddirprwyo)
- Cyd-drefniadau Rheoli
- Sefydliadau wedi eu cyfansoddi gan Siarter Frenhinol
- Amgueddfeydd Prifysgol (lle cyflawnir y meini prawf cymhwysedd eraill)
- Deddf Seneddol

### Mathau cyfansoddiadol a allai fod yn gymwys

Bydd hyn yn dibynnu i ba raddfa y mae'r cyfansoddiad yn cefnogi diben tymor hir amgueddfa gyhoeddus,

- Ymddiriedolaeth Elusennol
- Cymdeithas Buddiant Cymunedol (a elwir hefyd yn BenCom)
- Cwmnïau Buddiant Cymunedol wedi'u Cyfyngu trwy Warant (CICLG)
- Cwmnïau Cydfuddiannol Gwasanaethau Cyhoeddus (os ydynt yn CIO neu'n BenCom)

### Mathau cyfansoddiadol nad ydynt yn gymwys i dderbyn Achrediad

- Cymdeithas Anghorfforedig (Sefydliad Gwirfoddol/Cymunedol sydd heb ei hunaniaeth gyfreithiol ar wahân ei hun)
- Cwmni Preifat a Chyhoeddus Cyfyngedig trwy gyfrannau
- Partneriaeth a Phartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
- Cwmnïau Buddiant Cyhoeddus Cyfyngedig trwy Gyfrannau
- Cymdeithasau Cydweithredol
- Cyfryngau at Ddibenion Arbennig a strwythurau tymor byr eraill

## Rhesymau cyffredin pam mae dogfennau llywodraethu'n anghymwys

- **Nid yw'r cyfansoddiad yn cynnwys pwerau i ddal casgliadau ac nid yw'n gwahaniaethu rhwng eiddo corfforaethol a chasgliadau sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld.**

Rhaid i ni weld cyfeiriad at ddal casgliadau a'u diogelu nhw trwy eu trin yn wahanol i eiddo arall sy'n cael ei ddal gan y sefydliad (hynny yw, asedau / eiddo corfforaethol a ddefnyddir wrth redeg y sefydliad o ddydd i ddydd y gellid eu gwerthu unrhyw bryd).

Mae pwysleisio gwahaniaeth eglur rhwng eich asedau corfforaethol a'r casgliadau sydd ar gael i'w gweld gan y cyhoedd yn gallu bod yn amddiffyniad pwysig os bydd y sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben oherwydd ansolfedd. Pan fydd cyfansoddiad yn nodi mai prif bwrpas y sefydliad yw dal casgliad treftadaeth a'i wneud yn hygyrch er budd y cyhoedd, yna gallai ymarferydd ansolfedd fod yn fwy tebygol o werthu'r eiddo hwnnw olaf ac, os oes modd, yn rhydd i sefydliad elusennol arall sydd â diben tebyg.

Byddai angen i chi ychwanegu penderfyniad i'ch dogfen lywodraethu yn ymwneud â'r grym i adeiladu a diogelu casgliad er budd y cyhoedd dros y tymor hir. Byddai hynny'n ddigonol at ddibenion Achredu. Gallech chi hefyd gynnwys paragraff sy'n nodi bod y sefydliad wedi'i ymrwymo i reoli'r casgliadau yn unol â safonau'r sector,

er enghraifft Cynllun Achredu Amgueddfeydd y DU a Spectrum: Safon Rheolaeth Casgliadau'r DU.

Nid oes geiriad penodol a argymhellir ar gyfer y cymal. Nid yw'n hanfodol gweld y gair 'casgliad'. Mae opsiynau derbyniol eraill yn cynnwys, 'gwrthrychau', 'eitemau', 'asedau treftadaeth' neu 'archif', er y byddem eisiau gwybod a yw'n amgueddfa neu'n archif yn ei weithrediadau.

- **Nid yw'r cyfansoddiad yn rhoi pwerau i weithredu fel amgueddfa**

  Mae'r prif wrthrychau yn eich cyfansoddiad yn cyfeirio at amcanion fel addysgu / annog a hyrwyddo gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd.

  I ateb y meini prawf cymhwysedd i gael Achrediad mae angen i'ch dogfen lywodraethu gynnwys pwerau eglur i redeg amgueddfa naill ai o fewn ei phrif amcanion neu fel is-gymal.

  Mewn termau ymarferol, byddai hyn yn golygu ychwanegu penderfyniad i'ch dogfen lywodraethu o amgylch y nod o weithredu amgueddfa er budd y cyhoedd ac wedi ei chanolbwyntio'n bennaf ar thema benodol.

  Nid oes geiriad penodol a argymhellir ar gyfer y cymal. Byddai angen i bob amgueddfa benderfynu ar y geiriad gorau yn unol â'u hamgylchiadau arbennig.

## Cwblhau eich Holiadur Cymhwysedd

Mae'r adran hon o'r arweiniad yn archwilio'r meini prawf cymhwysedd yn fanylach ac yn darparu promptiau i feddwl amdanynt wrth lenwi'r Holiadur Cymhwysedd.

Gallwch **lawrlwytho copi o'r Holiadur Cymhwysedd** o'r Llyfrgell Arweiniad i Achrediad.

### Cwestiwn 1. A yw'r amgueddfa wedi ei seilio yn y DU, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel?

Byddwn yn gofyn i chi am enw eich amgueddfa – dywedwch wrthym beth yw'r enw a ddefnyddiwch i farchnata eich amgueddfa. Rhaid i ni gael manylion cyfeiriad yr amgueddfa i wirio a yw'r amgueddfa'n gymwys i gymryd rhan yn y Cynllun ar sail ei lleoliad.

**Cwestiwn 2. Ydy'r amgueddfa'n cyfateb â'r diffiniad o amgueddfa y cytunwyd arno?**

- Dyma ddiffiniad y Gymdeithas Amgueddfeydd o amgueddfa (1998):
  'Mae amgueddfeydd yn galluogi i bobl archwilio casgliadau i gael ysbrydoliaeth, addysg a mwynhad. Maen nhw'n sefydliadau sy'n casglu, diogelu a gwneud yn hygyrch yr arteffactau a'r sbesimenau hynny y maen nhw'n eu dal mewn ymddiriedolaeth i gymdeithas.'
- Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys orielau celf sydd â chasgliadau o weithiau celf, yn ogystal ag amgueddfeydd sydd â chasgliadau hanesyddol o wrthrychau.
- Byddwn yn gofyn i chi ddisgrifio'n fyr sut mae eich amgueddfa'n cyfateb i'r diffiniad uchod. Meddyliwch am amcanion a diben eich sefydliad, eich casgliad a sut rydych yn cyrraedd pobl a chymunedau ac yn ennyn eu diddordeb. (Hyd at 300 o eiriau).

**Cwestiwn 3. A yw'r amgueddfa yn safle/lle/adeilad ffisegol sy'n agored i'r cyhoedd yn rheolaidd?**

- Mae angen i'ch amgueddfa fod yn safle neu'n lle ffisegol lle gall y cyhoedd brofi casgliadau wedi eu dehongli mewn arddangosfa hirdymor/barhaol.
- Dywedwch wrthym am safle neu ofod eich amgueddfa a'r trefniadau agor. Ydy eich amgueddfa'n agored i'r cyhoedd yn rheolaidd?
- Hefyd, cynhwyswch fanylion eich gwefan. Byddwn yn edrych ar unrhyw wybodaeth yr ydych wedi ei chyhoeddi ar-lein am eich trefniadau agor. (Hyd at 300 o eiriau)

**Cwestiwn 4.  Sut all y cyhoedd brofi ac ymgysylltu â chasgliadau'r amgueddfa?**

- Dywedwch wrthym am y gwahanol ffyrdd y mae'r cyhoedd yn profi casgliadau eich amgueddfa – gallai hyn gynnwys arddangosfeydd dros dro, teithiau gyda thywysydd, sgyrsiau, adnoddau ar-lein.
- Rydym yn edrych i weld bod gan y cyhoedd fynediad clir at y casgliadau a bod eich sefydliad yn cyflawni ei bwrpas cyhoeddus (Hyd at 300 o eiriau).

**Cwestiwn 5. Mae'n rhaid i'r amgueddfa gael cyfansoddiad priodol**

- Yn yr adran hon byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym am eich corff llywodraethu a'ch dogfen lywodraethu.

- Byddwn yn gofyn am eich math o gyfansoddiad a pha fframwaith rheoleiddiol y mae eich amgueddfa'n gweithredu oddi tano (e.e. Comisiwn Elusennau / Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban).
- Bydd angen i chi anfon copi o'ch dogfen lywodraethu gymeradwy gyda'ch Holiadur Cymhwysedd cyflawn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon y fersiwn mwyaf diweddar. Byddwn yn sicrhau ei fod yn cyfateb i'r manylion ar wefan eich corff rheoleiddio.
- Byddwn yn gofyn i chi amlinellu sut mae eich cyfansoddiad yn ateb pob un o'r meini prawf cyfansoddiadol. Lle bo'n berthnasol, nodwch y cymal penodol yn eich cyfansoddiad sy'n ateb y meini prawf (hyd at 500 o eiriau):
  - Yn bodoli er budd y cyhoedd
  - Yn gallu dangos bod ei gasgliadau a'i asedau wedi eu diogelu'n briodol
  - Â'r pwerau i weithredu amgueddfa a dal casgliadau ac asedau, mae'n rhaid i'r pwerau hyn fod yn eglur ac ni ddylent gynnwys y gallu i ddosbarthu asedau neu elw er mwyn sicrhau buddiant preifat
  - Yn atebol i reoliad statudol neu broses farnwrol mewn perthynas â'i weithrediad
  - Rhaid iddo fod yn endid parhaus gyda diben tymor hir

- Pan fydd **model rheoli hybrid** yn bodoli, bydd angen i chi ddarparu copïau o unrhyw gytundebau rhwng y corff llywodraethu a'r sefydliad rheoli. Gallai hyn gynnwys dogfennau fel cytundeb lefel rheoli neu wasanaeth, neu gytundeb benthyg casgliadau.
- Mewn achosion lle **nad rhedeg amgueddfa yw prif ddiben sefydliad**, e.e. os yw'n awdurdod heddlu neu brifysgol / sefydliad addysg uwch, byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol. Os yw'r corff llywodraethu wedi sefydlu pwyllgor rheoli i reoli'r amgueddfa darparwch unrhyw gylchoedd gwaith y cytunwyd arnynt, a gwybodaeth am y llinell o awdurdod a'r ddogfen gymeradwyaeth oddi wrth y corff llywodraethu i weithgareddau'r amgueddfa.

**Cwestiwn 6. Ydych chi'n ymroddedig i wneud cais am Achrediad o fewn tair blynedd?**

- Dywedwch wrthym beth yw eich dyddiad targed ar gyfer gwneud cais am Achrediad. I sicrhau bod y dyddiad yn realistig, dewch yn gyfarwydd â'r Safon Achrediad a'r arweiniad Achrediad: [Sut i gyrraedd y Safon.]()
- Amlinellwch eich llinell amser ar gyfer gwneud cais, gan restru'r cerrig milltir allweddol sy'n berthnasol wrth baratoi eich cais. Bydd angen i chi adeiladu amser i mewn i ddatblygu'r polisïau a'r cynlluniau gofynnol yn ogystal â threfnu bod y dogfennau cymeradwyo perthnasol, wedi eu llofnodi, yn eu lle.

- I ddangos tystiolaeth o'ch ymrwymiad i ymgeisio, gallwn dderbyn copi o'ch blaengynllun neu gynllun busnes sy'n cyfeirio at baratoi a chyflwyno eich cais am Achrediad o fewn ffrâm amser penodol. Neu gallwn dderbyn llythyr gan ymddiriedolwyr neu gofnodion gan eich corff llywodraethu neu bwyllgor rheoli lle'r ydych wedi trafod paratoi cais am Achrediad erbyn dyddiad penodol. (Hyd at 300 o eiriau).

## Cyflwyno eich Holiadur Cymhwysedd i gael ei adolygu

Rhaid i'r ffurflen gyflawn gael ei llofnodi gan aelod o'r corff llywodraethu neu gan unigolyn sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran y corff llywodraethu.

Anfonwch eich Holiadur Cymhwysedd cyflawn, dogfen lywodraethu a'r dyddiad cais arfaethedig mewn e-bost i'ch sefydliad asesu Partneriaid y DU. Bydd y cyfeiriad e-bost perthnasol wedi ei restru ar yr Holiadur Cymhwysedd.

## Y broses o adolygu cymhwysedd

Byddwn yn asesu'r wybodaeth a ddarparwch yn erbyn y meini prawf cymhwysedd i benderfynu a yw eich amgueddfa'n gymwys i wneud cais am Achrediad. Os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, bydd yr adolygwr yn cysylltu â chi.

**Byddwn fel arfer yn rhoi gwybod i chi beth yw'r canlyniad o fewn chwe wythnos.**

Os yw eich amgueddfa'n cael ei marchnata fel amgueddfa genedlaethol mewn enw, efallai y byddwn yn trefnu ymweliad â'r safe. Byddwn yn gwneud hynny i gadarnhau eich bod yn darparu adnoddau, casgliadau a gwasanaethau sy'n gymaradwy ag Amgueddfeydd Cenedlaethol. I gael rhagor o wybodaeth am amgueddfeydd cenedlaethol mewn enw, gwelwch yr Arweiniad i Achrediad: Dangosyddion Graddiadwyedd Amgueddfeydd.

### Os yw eich amgueddfa'n gymwys i wneud cais

Cewch eich cadarnhau fel amgueddfa sy'n Gweithio Tuag at Achrediad. Bydd gennych hyd at dair blynedd i baratoi a chyflwyno cais am Achrediad.

Byddwch yn derbyn rhif cyfeirnod i'w ddefnyddio bob tro y byddwch yn cyfathrebu â ni. Bydd y rhif hwn yn dechrau gyda 'T'. Byddwn yn ychwanegu manylion eich amgueddfa a dyddiad dod i ben eich cymhwysedd ar y rhestr a gyhoeddir yn allanol o ymgeiswyr sy'n Gweithio Tuag at Achrediad.

Os na fyddwch yn cyflwyno cais am Achrediad o fewn tair blynedd, yna bydd eich cymhwysedd i wneud cais yn dod i ben yn awtomatig. Os oes gennych gynlluniau o hyd i gymryd rhan yn y cynllun Achredu, bydd angen i chi anfon Holiadur Cymhwysedd newydd i mewn.

Rhowch wybod i ni os byddwch yn wynebu unrhyw newid mawr yn ystod eich cyfnod Gweithio Tuag at Achrediad, e.e. newid yn eich cyfansoddiad, neu newid safle. Bydd angen i ni wirio a yw'r newid yn effeithio ar eich cymhwysedd i wneud cais.

## Os nad yw eich amgueddfa'n gymwys i wneud cais

Os nad yw eich sefydliad yn cyflawni'r meini prawf cymhwysedd, byddwn yn rhoi gwybod i chi pam ein bod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw.

Bydd yr aseswr yn esbonio pa un o'r meini prawf Cymhwysedd nad ydych wedi eu cyflawni ac, os yw'n berthnasol, pa gamau y bydd angen i chi eu cymryd i fynd i'r afael â hyn er mwyn ail gyflwyno eich Holiadur Cymhwysedd.

# Eich cais am Achrediad

Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad i amgueddfeydd cymwys sy'n gwneud eu cais cyntaf.

Ar y cam cymhwysedd byddwch wedi amlinellu eich dyddiad targed a'ch llinell amser i wneud cais. Mae gan amgueddfeydd sy'n gymwys i wneud cais hyd at dair blynedd i baratoi a chyflwyno cais am Achrediad.

## Cychwyn arni

**Darllenwch y Safon Achrediad a'r arweiniad ac adnoddau cyfatebol a dewch yn gyfarwydd â nhw.** Fe welwch drosolwg o adnoddau yn yr adran Pa wybodaeth y mae angen i mi ei chyflwyno? isod.

**Cynhwyswch gydweithwyr a rhanddeiliaid drwy gydol eich cynllunio a'ch paratoadau.** Bydd angen i bolisïau a chynlluniau dderbyn cymeradwyaeth gan eich corff llywodraethu. Mae'n bwysig bod staff a gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am faes o'ch gwaith yn gyfarwydd ag unrhyw weithdrefnau newydd sy'n berthnasol iddo.

Mae **mentoriaid achredu'n** bobl broffesiynol brofiadol yn y sector, sy'n helpu amgueddfeydd llai i gyflawni a chadw Achrediad. Os oes gennych fentor Achrediad, trefnwch i ddal i fyny'n rheolaidd er mwyn cael cefnogaeth drwy gydol y broses ymgeisio.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch chi,** cysylltwch â'ch sefydliad asesu Achrediad, neu ddarparydd Datblygiad Amgueddfeydd lleol. Mae eu manylion cysylltu yn yr adran Cymorth a chyngor isod.

## Pa wybodaeth sydd angen i mi ei chyflwyno?

Bydd angen i chi ddangos eich bod yn ateb holl ofynion y Safon Achredu. Gwnewch yn siŵr bod eich adolygiadau diogelwch, cynlluniau argyfwng a pholisïau a chynlluniau eraill yn ymwneud â'r holl safleoedd (yn cynnwys rhai oddi ar y safle) sy'n dal casgliadau.

Byddwch yn gweld arweiniad a thempledi i'ch cefnogi chi yn y Llyfrgell Arweiniad i Achrediad, yn cynnwys:

- **Achrediad: Sut i gyrraedd y Safon** – y brif ddogfen arweiniad ar gyfer y rhaglen. Mae'n esbonio sut i ddangos bod eich amgueddfa'n cyflawni'r gofynion.

- **Y Safon Achredu: Rhestr wirio o Ddogfennau** – mae hwn yn rhestru'r dogfennau y bydd angen i chi fod â nhw yn eu lle.

- **Achrediad: Dangosyddion graddiadwyedd amgueddfeydd –** mae rhai gofynion wedi eu teilwra yn ôl maint a math yr amgueddfa. I ddewis maint a math eich amgueddfa, cymharwch eich amgueddfa yn erbyn y nodweddion sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

- **Templed ar gyfer Polisi Datblygu Casgliad** – mae'n rhaid i'ch polisi gyfateb â'r templed cymeradwy. Os byddwch yn gwneud newidiadau i'r geiriad, byddwch yn barod i ddangos ymhle mae'r cymalau perthnasol wedi eu cynrychioli. Gallwn fod yn hyblyg gyda'r geiriad lle mae amgueddfa wedi diweddaru cymalau i alinio â Phecyn Cymorth Gwerthu'r Gymdeithas Amgueddfeydd.

- **Cyfres cwestiynau'r ffurflen gais** – gallwch lawrlwytho copi i'ch helpu i baratoi. Ond nodwch na allwn ond derbyn ceisiadau sydd wedi eu cyflwyno ar-lein gan ddefnyddio Grantium.

- **Cwestiynau achredu – Amgueddfeydd cenedlaethol a chenedlaethol mewn enw** – copi cyfeirio. Mae'n rhaid i amgueddfeydd cenedlaethol y DU gwblhau cwestiynau ychwanegol. Mae'r rhain yn agor ar y ffurflen gais os ydych yn dewis eich math o amgueddfa fel un 'genedlaethol'. Mae'n rhaid i amgueddfeydd sy'n defnyddio enw a dull marchnata amgueddfa sy'n genedlaethol mewn enw gwblhau cwestiynau ychwanegol hefyd. Mae'r rhain yn agor ar y ffurflen gais os ydych yn dewis 'oes' pan ofynnir a oes gan eich amgueddfa enw amgueddfa genedlaethol.

- Mae adnoddau Achredu i'w cael ar **wefan yr Ymddiriedolaeth Casgliadau,** ac mae'r rhain yn cynnwys y tri maes eang o weithgareddau'r amgueddfa: iechyd sefydliadol, casgliadau, a defnyddwyr a'u profiadau. O dan y prif benawdau hyn fe welwch fanylion gofynion y Safon a'r adnoddau perthnasol: [http://www.collectionstrust.org.uk/accreditation/](http://www.collectionstrust.org.uk/accreditation/)

## Ceisiadau gan safle unigol a reolir gan wasanaeth amgueddfa

Rydym yn rhoi Achrediad i safleoedd nid gwasanaethau. Os ydych yn perthyn i grŵp o amgueddfeydd a weithredir gan gorff corfforaethol, fel gwasanaeth awdurdod lleol, yna byddwn yn gofyn i bob amgueddfa unigol wneud cais.

Ar Grantium, gall ymgeiswyr y gwasanaeth amgueddfeydd ddewis cyflwyno ceisiadau ar gyfer pob un o'u safleoedd drwy un proffil Ymgeisydd unigol ar gyfer y prif gorff, neu gallant sefydlu proffil Ymgeisydd ar gyfer pob safle unigol.

Os ydych yn rhannu dogfennau gydag amgueddfeydd eraill yn grŵp, ac rydych yn gwneud cais ar gyfer nifer o safleoedd ar yr un pryd, gallwch enwebu un safle fel y brif amgueddfa (e.e. y fwyaf o ran cyllideb neu nifer ymwelwyr, neu beth bynnag sy'n gweithio orau i'ch gwasanaeth), a lanlwytho'r dogfennau polisi a rannwch i'r ffurflen gais benodol honno. Yna, y cwbl y bydd angen i'r amgueddfeydd eraill i gyd ei wneud yw croesgyfeirio hyn yn eu ceisiadau lle gofynnir i chi lanlwytho dogfen eto.

## Awdurdodau amgueddfeydd cenedlaethol

Os ydych yn gwneud cais ar ran awdurdod amgueddfa genedlaethol, fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Historic Environment Scotland, cewch eich tywys drwy asesiad dau gam. Yn gyntaf byddwn yn gofyn i chi ddarparu cais canolog sy'n cwmpasu'r elfennau sy'n cael eu rheoli drwy'r gwasanaeth i gyd fel cynlluniau a pholisïau corfforaethol. Os ydych yn eiddo unigol, yna byddwn yn gofyn i chi ddarparu fersiwn wedi'i symleiddio o'ch cais sy'n cwmpasu'r manylion hynny sy'n benodol i'r safle.

## Sut ydw i'n cyflwyno'r cais am Achrediad?

Byddwch yn cyflwyno eich cais am Achrediad gan ddefnyddio porth cais ar-lein Grantium. Dyma ddolen tudalen hafan Grantium:
https://applications.artscouncil.org.uk/frontOffice.jsf

Byddwch yn gweld arweiniad ar sut i gychwyn arni gyda Grantium a llenwi'r ffurflen gais yn y Llyfrgell Arweiniad i Achrediad.

### Awgrymiadau allweddol am ddefnyddio Grantium

I fewngofnodi i Grantium am y tro cyntaf byddwch chi angen creu **Cyfrif Defnyddiwr** personol. Mae hwn yn unigryw i bob defnyddiwr unigol ac yn gweithredu fel eich llofnod personol. Ni ddylech rannu eich manylion mewngofnodi i'r Cyfrif Defnyddiwr gydag unrhyw un arall.

Mae'r **Proffil Ymgeisydd** yn cynrychioli eich amgueddfa neu oriel gelf. Bydd cyfeirnod eich proffil ymgeisydd yn dechrau gyda **5**XXXXXXX.

Pan fyddwch yn sefydlu eich ffurflen gais am Achrediad yn Grantium, gwnewch nodyn o'ch **Rhif Prosiect sy'n dechrau gydag ACCR-**. Bydd hwn yn eich helpu i ddod o hyd i'r ffurflen pan fyddwch yn allgofnodi ac yn mewngofnodi eto. Os byddwch yn cysylltu â ni gydag ymholiad am eich cais, rhowch eich Rhif Prosiect os gwelwch yn dda.

Mae angen i chi lenwi'r ffurflen gais am Achrediad **yn nhrefn y tudalennau, gan lenwi un cyn symud at y llall.** Mae'r atebion a rowch i gwestiynau cynharach yn y ffurflen gais yn dylanwadu ar ba gwestiynau a phromptiau sy'n agor yn nes ymlaen.

Gallwch weithio ar eich ffurflen gais a dechrau llwytho pethau i fyny mor fuan ag y dymunwch – ni fydd unrhyw beth yn dod atom ni nes y byddwch yn gwasgu 'cyflwyno' ar sgrin derfynol y ffurflen gais.

## Asesiad a phenderfyniad

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais am Achrediad, byddwch yn derbyn **hysbysiad e-bost awtomatig** drwy Grantium yn cadarnhau ein bod wedi ei dderbyn. Os na fyddwch yn derbyn hysbysiad o fewn awr i'w gyflwyno, gwiriwch eich ffolder post sothach i ddechrau, ac yna anfonwch e-bost i enquiries@artscouncil.org.uk gan nodi rhif prosiect eich cais ACCR-.

Bydd eich cais yn cael ei ddyrannu i'r sefydliad asesu ar gyfer eich ardal ddaearyddol: Arts Council England, Llywodraeth Cymru, Museums Galleries Scotland neu Gyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon.

**Ein nod yw gwneud penderfyniad am eich cais o fewn chwe mis i'w dderbyn**. Os nad oes gennym gais cyflawn a phopeth y byddwn eu hangen ar gyfer ein hasesiad, gallai hyn gymryd mwy o amser.

### Asesiad

Byddwn yn asesu eich cais yn erbyn gofynion y Safon Achrediad a'r dogfennau arweiniad cysylltiedig.

Bydd eich aseswr yn gwneud **adolygiad cyntaf a gallai ofyn am wybodaeth ychwanegol**, e.e. bod y dogfennau ar gael os gofynnir amdanynt, neu wybodaeth yn ymwneud â gofynion statudol neu gyfreithiol, fel polisïau diogelu. Byddai'r cais am wybodaeth yn cael ei anfon drwy Grantium i'r holl Gyfrifon Defnyddwyr sy'n gysylltiedig â Phroffil yr Ymgeisydd.

Fel arfer byddwn yn gwneud **ymweliad safle** ar gyfer ymgeiswyr newydd. Bydd yr asesydd yn cysylltu i gytuno ar ddyddiad yr ymweliad. Nod yr ymweliadau safle yw bod yn gefnogol i chi a'n helpu ni i gael gwell dealltwriaeth o'r amgueddfa. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ymweliadau safle yn y [Llyfrgell Arweiniad i Achrediad.]

## Argymhelliad y dyfarniad

**Os yw eich cais yn dangos eich bod yn cyflawni gofynion y Safon** bydd yr asesydd yn argymell dyfarnu Achrediad Llawn.

Gallent ychwanegu Meysydd i'w Datblygu i argymelliad y dyfarniad. Bydd y rhain yn ymwneud â gofynion penodol lle mae'r amgueddfa'n cydymffurfio ond y gallai wneud gwelliannau. Rhoddir yr argymhellion hyn yn bennaf ar gyfer datblygiad, i helpu amgueddfa i ganolbwyntio ar feysydd allweddol, ond gellir eu defnyddio hefyd i dynnu sylw'n anffurfiol at fater i'w fonitro yn y dyfodol.

**Os nad ydych yn cyflawni meysydd allweddol meini prawf y Safon Achredu yna bydd yr asesydd yn argymell na ddylai'r cais gael ei symud ymlaen ar hyn o bryd.**

Bydd yr asesydd yn esbonio pa feysydd o'r meini prawf yr ydych heb eu cyflawni, a pha gamau y bydd angen i chi eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Gallwch ail gyflwyno eich cais am Achrediad unwaith y byddwch wedi ymdrin â'r adborth.

## Y panel penderfynu

Mae asesiadau wedi eu cwblhau'n cael eu hamserlennu ar gyfer eu hystyried gan y panel Penderfynu am Achrediad. Mae'r rhain yn cael eu cynnal bob deufis fel arfer.

Mae aelodau'r panel yn cael eu tynnu o'r Pwyllgor Achredu, sef corff proffesiynol gwirfoddol o arbenigwyr sy'n gweithredu fel cynrychiolydd y sector amgueddfeydd yn y DU.

Mae aelodau'r panel yn adolygu pob asesiad ac yn gwneud y penderfyniad terfynol ar ganlyniad y dyfarniad ac unrhyw Feysydd i'w Datblygu.

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Achredu ar [wefan y Cyngor Celfyddydau]

### Llythyr am y dyfarniad

Byddwch yn cael eich hysbysu'n ffurfiol am benderfyniad y panel tua phythefnos ar ôl y cyfarfod. Byddwn yn anfon eich llythyr canlyniad mewn e-bost neu drwy hysbysiad Grantium.

Byddwn hefyd yn atodi copi o'n telerau ac amodau ar gyfer y dyfarniad. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn y rhain gan ddefnyddio Grantium. Dylech hefyd ddarllen ein **Taflen Wybodaeth ar ôl Dyfarniad** sy'n esbonio sut i hyrwyddo eich dyfarniad a beth i'w wneud os byddwch yn cael newid arwyddocaol.

Os yw'r panel wedi dyfarnu Achrediad Llawn, byddwn yn darparu tystysgrif dyfarniad o fewn pedair wythnos fel arfer ar ôl i chi dderbyn yr amodau a thelerau.

### Am faint mae'r dyfarniad yn para?

Mae dyfarniad o **Achrediad Llawn** yn parhau yn ei le nes bydd y Panel Achredu'n adolygu asesiad wedi'i ddiweddaru.

Unwaith y byddwch wedi derbyn Achrediad byddwn yn eich gwahodd bob hyn a hyn i ddangos bod eich amgueddfa'n parhau i gwrdd â'r Safon. Yr enw ar hyn yw'r Datganiad Achredu a bydd yn digwydd bob pum mlynedd fel arfer. Bydd eich sefydliad asesu'n e-bostio gwahoddiad atoch i gwblhau'r Datganiad Achredu chwe mis cyn y dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno. Byddwch yn cyflwyno eich cais gan ddefnyddio porth ymgeisio ar-lein Grantium.

## Cymorth a chyngor am achrediad

Mae pob un o bartneriaid y DU yn darparu cyngor a chymorth am Achrediad yn eu hardal ddaearyddol hwy. Os oes gennych unrhyw gwestiynau wrth baratoi eich Holiadur Cymhwysedd neu gais am Achrediad cysylltwch â'r isod:

**Yr Alban**
**Museum Galleries Scotland**
Museum Accreditation - Museums Galleries Scotland
E-bost: accreditation@museumsgalleriesscotland.org.uk

**Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
Y Cynllun Achredu Amgueddfeydd | LLYW.CYMRU
E-bost: MuseumDevelopment@gov.wales

**Gogledd Iwerddon**
**Cyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon**
Museum Accreditation Scheme | N. Ireland Museums Council (nimc.co.uk)
E-bost: devofficer@nimc.co.uk

**Lloegr**
Mae **Arts Council England** yn ariannu rhaglen o Ddatblygiad Amgueddfeydd i gefnogi darpariaeth Cynllun Achrediad y DU yn Lloegr. I gael cyngor pan fyddwch ar y cam cymhwyso neu ymgeisio, cysylltwch â'ch tîm Datblygiad Amgueddfeydd lleol. Mae'r manylion cysylltu ar gael ar eu gwefan:

Datblygiad Amgueddfeydd Gogledd Lloegr
Datblygiad Amgueddfeydd Canolbarth Lloegr
Datblygiad Amgueddfeydd Llundain
Datblygiad Amgueddfeydd De Orllewin Lloegr
Datblygiad Amgueddfeydd De Ddwyrain Lloegr

**Amgueddfeydd Cenedlaethol y DU** (sydd wedi eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth genedlaethol ac sy'n derbyn cyllid yn uniongyrchol gan y Llywodraeth ganolog neu gan y Llywodraeth ddatganoledig) cysylltwch ag accreditation@artscouncil.org.uk i ddechrau.

Amgueddfeydd wedi eu seilio ar **Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw** cysylltwch ag accreditation@artscouncil.org.uk yn y lle cyntaf.

**Cymorth ar gyfer defnyddio Grantium**

Mae arweiniad ar sefydlu Cyfrif y Defnyddiwr a Phroffil yr Ymgeisydd ar gael ar y ddolen a ganlyn: https://www.artscouncil.org.uk/grantium-support Gallwch weld gwybodaeth wedi ei theilwra am y Cynllun Achredu yn y Llyfrgell Arweiniad i Achrediad.

I gael cymorth a chefnogaeth gyda defnyddio Grantium, cysylltwch â thîm Gwasanaethau'r Cwsmer Arts Council. E-bost: enquiries@artscouncil.org.uk
Ffôn: 0161 934 4317 (10am-4pm) Gallwch hefyd sgwrsio'n fyw drwy fynd i: https://www.artscouncil.org.uk/contact